Fframwaith rheoleiddio wrth gefn cymwysterau galwedigaethol, Canllawiau COVID-19

AWST 2021

Cynnwys

Diwygiadau i'r ddogfen hon 3

Canllawiau mewn perthynas ag Addasu cymwysterau galwedigaethol 4

Cyd-destun 4

Egwyddorion 5

Proses 5

Enghreifftiau o faterion y gallai fod angen eu lliniaru 6

Dulliau addasu 6

Ffactorau ychwanegol 7

Dull cyson 8

Gweithio gyda Chanolfannau ac eraill 8

Gwella'r ddealltwriaeth o Ganolfannau a Dysgwyr 9

Canllawiau ar asesu o bell a Goruchwylio o bell 10

Asesu o bell 10

Goruchwilio o Bell 10

Canllawiau ar benderfynu ar ganlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori B 13

Paratoi ar gyfer penderfynu ar ganlyniadau a'u cyhoeddi 13

Categoreiddio cymwysterau 13

Cymwysterau sydd fwyaf tebyg i TGAU, UG a Safon Uwch 14

Cymwysterau Categori B a ddefnyddir i gefnogi dilyniant i astudiaeth bellach neu uwch ond nad oes ganddynt yr un nodweddion â chymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch ac nad ydynt yn cael eu cyflwyno yn yr un ffordd 20

Cyfraith Diogelu Data 21

Ymgysylltiad canolfan â Dysgwyr sy'n derbyn Graddau a Asesir gan Athrawon 22

Dysgwyr nad ydynt ar fin ennill tystysgrif 22

Gwiriadau a datganiadau Pennaeth y Ganolfan 22

Safonau yn 2021 23

Ymgeiswyr Preifat 24

Diwrnodau canlyniadau *24*

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod A6 mewn perthynas â VQs ac Amod VCR3.1(a)(ii) **25**

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod A8 (Camymddwyn a chamweinyddu) mewn perthynas â VQs **26**

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod D2 (Hygyrchedd cymwysterau) mewn perthynas â VQs **27**

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod G7 (Trefniadau ar gyfer Ystyriaeth Arbennig) mewn perthynas â VQs **28**

Canllawiau ar Amod H2 (Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau lle mae asesiad yn cael ei farcio gan Ganolfan) **29**

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod I1 (y broses Apelio) mewn perthynas â VQs **30**

Sail apêl ar gyfer Cymwysterau Categori B *30*

Ymgeiswyr Preifat *30*

Canllawiau ar Amod VCR8.2 ..... **31**

Diwygiadau i'r ddogfen hon

Cyhoeddwyd y ddogfen hon gyntaf ar 27 Ebrill 2021.

Ailgyhoeddwyd y ddogfen hon ar 18 Mai 2021 er mwyn ychwanegu canllawiau ar Amod VCR8.2 yn dilyn ymgynghoriad.

Ailgyhoeddwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghoriad ar 18 Awst 2021 er mwyn:

- diweddaru'r Canllawiau mewn perthynas ag Addasu VTQs er mwyn:
    - adlewyrchu cyd-destun blwyddyn academaidd 2021 i 2022 yn yr adran ragarweiniol 'cyd-destun'
    - adlewyrchu'r safbwynt polisi y bydd arholiadau ac asesiadau yn cael eu cynnal ym mlwyddyn academaidd 2021 i 2022 yn yr adran ar oedi ac aildrefnu asesiadau
    - aildeitlo'r adran sy'n ymwneud â chamau y gallai cyrff dyfarnu fod wedi'u cymryd i ddatblygu dealltwriaeth eu canolfannau
    - gwneud mân newidiadau canlyniadol eraill
- diweddaru'r Canllawiau ar Oruchwylio o Bell i gynnwys diffiniadau o 'oruchwylio o bell' ac 'asesu o bell', ac i wneud mân ddiwygiadau canlyniadol eraill i ddrafftio'r Canllawiau hynny.
- cywiro mân wallau argraffyddol yn Nhabl 1 y Canllawiau ar bennu canlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori B.
- gwneud mân newidiadau i'r Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod I1 i'w gwneud yn glir i ba Gategorïau y mae'r canllawiau'n ymwneud â nhw.

Canllawiau mewn perthynas ag Addasu cymwysterau galwedigaethol

Mae Amod VCR2.2 yn caniatáu inni nodi gofynion ac arweiniad mewn perthynas ag Addasu cymwysterau galwedigaethol (VQs).

Nodir ein canllawiau mewn perthynas ag Addasiadau isod. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i Gymwysterau Categori A o dan Amod VCR2.2(b) ac i Gymwysterau Categori B o dan Amod VCR3.5(b).

Cyd-destun

Mae pandemig coronafeirws (COVID-19) wedi arwain at golli addysg a hyfforddiant ers mis Mawrth 2020. Mae llawer o Ddysgwyr wedi profi aflonyddwch ar, neu ddiffyg, addysgu, dysgu ac asesu ers y dyddiad hwnnw. Mae cyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn parhau. Felly, gall addysgu, dysgu ac asesiadau barhau i gael eu heffeithio am weddill 2021 ac o bosibl y tu hwnt i hynny.

Dylai pob asesiad VQ barhau ar gyfer pob Dysgwr yn y flwyddyn academaidd 2021 i 2022. Fodd bynnag, o ystyried yr aflonyddwch a achoswyd gan bandemig y coronafeirws (COVID-19), efallai y bydd angen addasu cymwysterau.

Ar gyfer pob Cymhwyster Categori A, lle na all asesiadau a chymwysterau symud ymlaen fel y byddent fel arfer, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried Addasu eu hasesiadau. Gall cyrff dyfarnu sydd wedi defnyddio Addasiadau i liniaru aflonyddwch o dan Fframwaith ExtVQCov ac ar gyfer Cymwysterau Categori A a Chategori B o dan y Fframwaith VCR yn y flwyddyn academaidd 2020 i 2021, hefyd ddewis parhau i gymhwyso rhai neu'r holl Addasiadau hynny yn y flwyddyn academaidd 2021 i 2022.

Nid yw'n ofynnol i gorff dyfarnu wneud Addasiad i Gymhwyster Categori A lle nad yw'n angenrheidiol neu'n briodol gwneud hynny. Rhaid i gyrff dyfarnu roi sylw i'r canllaw hwn wrth benderfynu pa ddull i'w ddefnyddio i Addasu eu hasesiadau a'u cymwysterau.

O 1 Medi 2021, symudwyd yr holl gymwysterau a oedd yng Nghategori B i Gategori A. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd y canllaw hwn yn berthnasol i Gymwysterau Categori A yn ogystal â Chymwysterau Categori B y defnyddiwyd Addasiadau ar eu cyfer. O 1 Medi 2021, bydd y canllaw hwn ar Addasiadau yn berthnasol i bob VTQ, gan gynnwys y rhai a ddynodwyd yn flaenorol fel Cymwysterau Categori B ac na ddefnyddiwyd Addasiadau ar eu cyfer.

Egwyddorion

Pan fydd corff dyfarnu yn penderfynu gwneud Addasiadau i VQ, mae Amod VCR4 yn caniatáu inni nodi egwyddorion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â nhw. Nodir yr egwyddorion hynny yn y gofynion a nodir o dan Amod VCR4.1.

Nid yw'r egwyddorion sy'n berthnasol i Gymwysterau Categori A yn ffurfio hierarchaeth lle byddai cydymffurfio ag un yn cael ei ffafrio yn hytrach na chydymffurfio ag un arall. Dylai corff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â phob un o'r egwyddorion i'r graddau mwyaf posibl.

Mae'r egwyddorion sy'n berthnasol i Gymwysterau Categori B yn ffurfio hierarchaeth.

Proses

Ar gyfer Cymwysterau Categori A, wrth benderfynu a oes angen lliniaru unrhyw aflonyddwch parhaus i addysgu, dysgu ac asesu, ac, os oes angen, sut i wneud hynny, dylai corff dyfarnu ystyried yr hyn sy'n ofynnol yng nghyd-destun ei gymhwyster/gymwysterau penodol. Wrth wneud hynny, gallai corff dyfarnu ei chael yn ddefnyddiol:

- Ystyried beth yw amcan y cymhwyster, y cynnwys, y strwythur a dyluniad a methodoleg yr asesiad. Yn benodol, gallai ystyried pam ei fod wedi gwneud dewisiadau dylunio penodol a pham mae cymwysterau'n cael eu hasesu yn y ffordd y maent mewn amgylchiadau arferol, a sut y gallai unrhyw Addasiadau effeithio ar y rhain.
- Nodi'r materion penodol sy'n effeithio ar gyflwyno ei gymwysterau ac asesiadau y mae angen eu lliniaru.
- Nodi materion posibl eraill a allai effeithio ar ei gymwysterau a'i asesiadau ac y bydd angen eu lliniaru.
- Nodi'r opsiynau sydd ar gael i liniaru unrhyw faterion.
- Nodi unrhyw risgiau i Ddilysrwydd a Dibynadwyedd sy'n deillio o'r dull Addasu a sut y gellid eu lliniaru.

Byddwn yn disgwyl i gorff dyfarnu ystyried yr holl risgiau perthnasol o dan Amod Safonol A6 (Nodi a rheoli risgiau), a'r posibilrwydd o gamymddwyn o dan Amod Safonol A8 (Camymddwyn a chamweinyddu), wrth benderfynu a ddylid addasu ei Gymwysterau Categori A a'i Gymwysterau Categori B a sut.

Enghreifftiau o faterion y gallai fod angen eu lliniaru

Mae enghreifftiau o faterion a allai effeithio ar Gymwysterau Categori A a Chymwysterau Categori B a'u hasesiadau y gallai fod angen i gorff dyfarnu eu lliniaru yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Mynediad cyfyngedig i Ganolfannau sy'n golygu nad yw Dysgwyr yn gallu mynychu mor aml ag y byddent fel arfer.
- Addysgu neu asesu yn y gwaith y mae canllawiau/cyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn effeithio arnynt, megis mesurau pellhau cymdeithasol.
- Addysgu neu asesu sgiliau ymarferol y mae canllawiau neu gyfyngiadau iechyd cyhoeddus yn effeithio arnynt, megis mesurau pellhau cymdeithasol.
- Mae mynediad at offer arbenigol yn gyfyngedig neu mae cyfleusterau penodol wedi'u cyfyngu neu ar gau.
- Addysgu neu asesu sy'n cynnwys gweithio mewn grwpiau neu dimau, sy'n wynebu cleientiaid, neu'n cynnwys perfformiad cyhoeddus tra bod mesurau pellhau cymdeithasol ar waith.
- Colli addysgu a dysgu i Ddysgwyr sy'n symud i ail flwyddyn eu cymhwyster.
- Yr amser sydd ei angen ar Ddysgwyr i setlo yn ôl i'w dysgu.

Dulliau addasu

Mae enghreifftiau o ffyrdd y gall corff dyfarnu Addasu VQ o dan y Fframwaith VCR wedi'u nodi yn y gofynion mewn perthynas ag Addasu VQs. Nid yw'r enghreifftiau hynny'n holl gynhwysfawr ac rydym yn cydnabod y gallai dull corff dyfarnu newid a datblygu dros amser er mwyn adlewyrchu sut mae'r pandemig coronafeirws (COVID-19) yn datblygu, diwygiadau i ganllawiau iechyd cyhoeddus ac unrhyw wybodaeth bellach a fydd ar gael iddo, a allai ddylanwadu ar ei ddull Addasu.

Nid ydym yn gwahardd unrhyw fath o Addasu. Fodd bynnag, dylai corff dyfarnu ystyried rheidrwydd unrhyw ddull Addasu, pa mor ymarferol yw gweithredu'r dull hwnnw, ac unrhyw risgiau y gallai'r dull eu creu.

Nid ydym yn disgwyl y dylai cynnwys cymhwyster gael ei leihau. Dylid ystyried newidiadau i'r cynnwys mewn amgylchiadau eithriadol lle mai dyma'r unig ffordd o leihau anfantais i Ddysgwyr. Rhaid ceisio barn cyrff sector a chyrff proffesiynol a rhanddeiliaid eraill hefyd cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r cynnwys. Fodd bynnag, gallai fod yn briodol, wrth gadw'r cynnwys a addysgir, leihau faint o gynnwys sy'n cael ei asesu, neu newid y ffordd y mae'r cynnwys yn cael ei asesu, heb danseilio Dilysrwydd a Dibynadwyedd y cymhwyster.

Dylai cyrff dyfarnu ystyried a yw dull Addasu sy'n briodol ar gyfer un cymhwyster y mae'n ei ddarparu, yn briodol ar gyfer un arall. Efallai hefyd fod dull Addasu yn briodol ar gyfer un dull asesu (er enghraifft arholiad, heb ei arholi, portffolio, sgiliau ymarferol) ond nid ar gyfer un arall.

Dylai cyrff dyfarnu hefyd benderfynu a fydd eu dull Addasu yn berthnasol i bob Dysgwr, ni waeth a yw Dysgwr yn cwblhau cymhwyster neu ei fod yn newydd i gymhwyster. Os na all Dysgwr gymryd asesiad wedi'i Addasu, yna gall Ystyriaeth Arbennig fod yn berthnasol.

Dylid hefyd ystyried unrhyw Addasiadau i ofynion asesu neu gyflawni yn ofalus fel nad ydynt yn tanseilio Dilysrwydd a Dibynadwyedd y cymhwyster. Er enghraifft, lle mae corff dyfarnu yn ceisio gwneud asesiadau mor Hydrin i'w rheoli â phosibl er mwyn caniatáu cynnydd yn yr amser addysgu, dylid cydbwyso unrhyw gamau i symleiddio asesiadau yn ofalus â'r angen i sicrhau bod cymwysterau'n parhau'n ddigon Dilys a Dibynadwy mewn perthynas â'r cynnwys a asesir, a sut y cyflawnir hyn.

Ffactorau ychwanegol

Dylai cyrff dyfarnu ystyried gofynion perthnasol ac eithrio'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn fframwaith rheoleiddio Cymwysterau Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion rheoleiddwyr eraill, cyrff proffesiynol, neu ofynion y diwydiant. Gall gofynion perthnasol eraill hefyd gynnwys y ddogfen Canllawiau Technegol os caiff ei chyhoeddi gan yr Adran Addysg ar gyfer VQs a ddefnyddir mewn tablau perfformiad yn Lloegr.

Lle mae angen i gorff dyfarnu ddod o hyd i atebion lleol i unrhyw aflonyddwch pellach, dylai geisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i fod yn ymatebol ac unrhyw risgiau i gymaroldeb ar draws y garfan, yn enwedig lle mae angen dulliau amgen rhwng Canolfannau sy'n cyflwyno'r un cymhwyster neu asesiad. Er enghraifft, efallai y bydd corff dyfarnu yn dymuno meddwl am amrywiol senarios a chanlyniadau cyn penderfynu ar y dull gorau, yn hytrach na gweithredu eu holl ddulliau Addasu yn y lle cyntaf.

Mewn ymateb i amgylchiadau penodol, efallai y bydd angen i gorff dyfarnu aildrefnu cyfle asesu lle nad yw'n bosibl iddo ddigwydd. Rydym yn rhagweld mai dim ond mewn amgylchiadau cyfyngedig y bydd y dull Addasu hwn yn cael ei ddefnyddio, megis pan fydd cyfnod clo lleol yn achosi i Ganolfannau gau ar gyfer asesiadau neu lle mae cyfleusterau penodol neu gyd-destunau seiliedig ar waith ar gau.

Dylid gwneud y defnydd mwyaf o'r hyblygrwydd presennol o ran sut, a pha mor aml, y mae asesiadau'n cael eu cyflwyno mewn cymhwyster penodol er mwyn lleihau effaith aflonyddwch, salwch neu gloi. Er enghraifft, lle bo hynny'n briodol, dylai corff dyfarnu annog Canolfannau a Dysgwyr i archwilio'r cyfleoedd a ddaw yn sgil

hyblygrwydd cynhenid cyflwyno llawer o VQs mewn dull modiwlaidd fel y gall Dysgwyr fancio tystiolaeth asesu wrth iddynt symud ymlaen trwy gymhwyster, er mwyn diogelu rhag aflonyddwch yn y dyfodol.

Pan gynigir VQs mewn cymwysterau sydd â chynnwys tebyg i gymwysterau cyffredinol nad ydynt yn dod o dan y Fframwaith VQR, ac yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd tebyg, dylai corff dyfarnu hefyd ystyried y dull a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau cyffredinol o'r fath lle mae'n bosibl bod Addasiadau wedi'u gwneud hefyd

Dull cyson

Dylid dilyn dulliau cyffredin at Addasu, cyn belled ag y bo modd lle mae cymwysterau yn arwydd o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau, neu gymhwysedd ymarferol tebyg, ac mae ganddynt yr un dulliau asesu a chyd-destun cyflawni.

Dylai cyrff dyfarnu, lle bo hynny'n bosibl, weithio gyda chyrff dyfarnu eraill ac o fewn eu sector, diwydiant neu fath o gymhwyster (er enghraifft cymwysterau Sgiliau Hanfodol) o ran lle y gellir cyflawni dull cyffredin o ddyfarnu cymwysterau dan y Fframwaith VCR. Os cytunir ar ddull cyffredin o sut i liniaru unrhyw darfu ar asesiadau a chymwysterau o fewn sector, diwydiant neu fath o gymhwyster penodol, dylai corff dyfarnu ystyried y dull hwnnw lle bo hynny'n berthnasol, a cheisio cydymffurfio ag ef lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Gweithio gyda Chanolfannau ac eraill

Dylai corff dyfarnu weithio gyda'i Ganolfannau wrth bennu unrhyw ddulliau Addasu. Mae canolfannau hefyd yn ymateb i anghenion Dysgwyr wrth i'r ymateb i'r pandemig coronafeirws (COVID-19) esblygu. Ni ddylai'r dulliau y mae corff dyfarnu yn eu cymryd tuag at Addasu ei gymwysterau dan y Fframwaith VCR amharu ar y gwaith y mae Canolfannau hefyd yn ei wneud i liniaru aflonyddwch, megis dysgu cyfunol neu weithgareddau adfer addysg.

Dylai corff dyfarnu hefyd weithio gyda'i Ganolfannau, ochr yn ochr â rhanddeiliaid perthnasol (gan gynnwys cyrff sector a phroffesiynol), i sicrhau bod y dulliau Addasu y mae'n eu cynnig yn glir ac yn dderbyniol ar gyfer pob cymhwyster a ddarperir ganddynt.

Fodd bynnag, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei bod yn glir i'w Ganolfannau pa Addasiadau y caniateir iddynt eu gwneud i gymwysterau ac asesiadau, a rhaid iddo ddarparu digon o ganllawiau i'w Ganolfannau mewn perthynas â'r Addasiadau hynny, yn unol ag Amod VCR6.1(a)(i). Dim ond o fewn y paramedrau a bennir gan y corff dyfarnu y gall canolfannau weithredu. Atgoffir cyrff dyfarnu o'u rhwymedigaethau mewn perthynas â'u trefniadau gyda Chanolfannau, fel y nodir yn

Amod Safonol C2 (Trefniadau gyda Chanolfannau). Rhaid i gorff dyfarnu gadw digon o oruchwyliaeth i sicrhau ei fod yn gwybod pa Addasiadau y mae ei Ganolfannau yn eu gweithredu.

Dylai cyrff dyfarnu gofio symleiddio a chydlynu eu cyfathrebiadau i Ganolfannau fel nad ydyn nhw'n rhy feichus. Dylai'r cyfathrebu fod yn glir ac yn amserol.

Gwella'r ddealltwriaeth o Ganolfannau a Dysgwyr

Wrth ddatblygu ei ymagwedd at gymwysterau ac asesiadau wedi'u haddasu o dan y Fframwaith VCR, dylai corff dyfarnu sicrhau ei fod yn y sefyllfa gryfaf bosibl i reoli unrhyw aflonyddwch pellach a achosir gan y pandemig coronafeirws (COVID-19).

Po fwyaf gwybodus y mae corff dyfarnu am y ffordd y mae ei gymwysterau'n cael eu cyflwyno, y mwyaf galluog fydd o ddefnyddio dull wedi'i dargedu ac o roi ymateb effeithiol i unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i liniaru effaith y pandemig coronafeirws (COVID-19), cyn belled ag y bo modd.

Gan adeiladu ar y gwaith a allai fod wedi'i wneud eisoes i gynyddu gwytnwch trwy'r pandemig, dylai sefydliadau dyfarnu barhau i ystyried a fydd angen iddynt gymryd camau ychwanegol i wella eu dealltwriaeth o, a chadw cofnodion o ran:

- pa gymwysterau sy'n cael eu cynnig gan eu Canolfannau, pa Ddysgwyr sy'n cymryd eu cymwysterau a phryd maen nhw'n disgwyl cymryd asesiadau, a
- y dulliau cyflwyno a ddefnyddir gan eu Canolfannau, beth sy'n cael ei addysgu pryd, a sut mae'n cael ei addysgu.

Canllawiau ar asesu o bell a Goruchwylio o bell

Mae Amod VCR2.2 yn caniatáu inni nodi gofynion ac arweiniad mewn perthynas ag Addasu VQs.

Isod, nodwn ein canllawiau mewn perthynas â defnyddio Goruchwylio o bell mewn VQs wedi'u haddasu. Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol yn ychwanegol at ein canllawiau cyffredinol a gyhoeddwyd o dan Amod VCR2.2. Maent yn berthnasol i Gymwysterau Categori A o dan Amod VCR2.2(b) ac i Gymwysterau Categori B o dan Amod VCR3.5(b).

At ddibenion y canllaw hwn, mae gan asesu o bell a Goruchwylio o bell yr ystyr canlynol:

Asesu o bell

Asesu o bell yw pan fydd Asesydd yn arholi Dysgwr, neu recordiad ohono, tra fod y Dysgwr yn cwblhau'r tasgau asesu gofynnol ac wedi'u hamseru o leoliad gwahanol i un yr Asesydd. Defnyddir asesu o bell i asesu tasgau ymarferol, llafar a pherfformio, ac felly mae'n wahanol i asesu ar-sgrin ac ar-lein.

Mae asesu ar-sgrin yn disgrifio lle mae Dysgwr yn darllen ac yn ateb cwestiynau asesiad ar-sgrin, naill ai trwy deipio neu glicio ar yr ymateb cywir neu drwy gasglu ynghyd dystiolaeth ddigidol o gyflawniad.

Mae asesu ar-lein yn disgrifio lle mae'r deunyddiau asesu ar gyfer asesiad ar-sgrin yn cael eu cyflwyno i'r Ganolfan, a lle mae ymatebion Dysgwr i'r asesiad hwnnw'n cael eu dychwelyd i'r corff dyfarnu, trwy'r rhyngrwyd.

Nid yw asesu o bell hefyd yn cynnwys cwblhau tasgau gofynnol yn annibynnol na chynhyrchu tystiolaeth heb oruchwyliaeth uniongyrchol a/neu arsylwi gan Asesydd.

Goruchwilio o Bell

Goruchwylio o Bell yw goruchwiliad Dysgwr lle mae'r Goruchwyliwr mewn lleoliad gwahanol i leoliad y Dysgwr. Gellir cyflawni hyn trwy ddefnyddio ffydio byw trwy gysylltiad rhyngrwyd a/neu drwy graffu ad-hoc ar luniau wedi'u recordio o'r Dysgwr yn cwblhau'r tasgau asesu gofynnol. Mae Goruchwilio o Bell yn defnyddio Goruchwylwyr dynol ond gallant gael eu cefnogi gan feddalwedd deallusrwydd artiffisial lle bo hynny'n briodol. Mae'n sicrhau bod y Dysgwr yn cwblhau'r asesiad o dan yr amodau gofynnol fel y gall y corff dyfarnu sicrhau ei hun o Ddilysrwydd yr asesiad a sicrhau dyfarniad y cymhwyster. Nid yw'r Goruchwyliwr yn asesu'r Dysgwr.

Gellir Asesu o bell a Goruchwilio o bell ddigwydd mewn lleoliad y tu allan i Ganolfan (megis yng nghartref y Dysgwr neu adeilad cyflogwr). Gall Goruchwilio o Bell fod yn

fesur unigol neu'n rhan o gyfres o fesurau i sicrhau bod yr asesiad wedi'i gynnal o dan amodau diogel.

Yn ein gofynion o dan Amod VCR2.2, rydym yn nodi mai un o'r Addasiadau posibl y gallai corff dyfarnu ei wneud i'w asesiadau yw 'newid y ffordd y mae asesiadau'n cael eu cyflwyno, er enghraifft trwy ddefnyddio prawf ar-lein yn hytrach na phapur, neu gynnal asesiad o bell yn hytrach nag wyneb yn wyneb', a 'newid gofynion goruchwylio, er enghraifft trwy ganiatáu defnyddio Goruchwylio o bell fel y gellir cynnal asesiadau mewn ystod ehangach o leoliadau'.

Pan ddefnyddir asesu o bell a/neu Oruchwylio o bell, o dan Amodau G8.1 a G9.2(c), rhaid i gorff dyfarnu ddal i sicrhau bod y dystiolaeth berthnasol wedi'i chynhyrchu gan y Dysgwr, a bod yr asesiad wedi'i gwblhau o dan yr amodau penodedig.

Yng ngoleuni'r gofynion hynny, bydd p'un a yw defnyddio asesu o bell a/neu Oruchwylio o bell yn briodol fel Addasiad yn dibynnu'n fawr ar y cyd-destun.

Byddwn yn disgwyl i gorff dyfarnu ystyried yr holl risgiau perthnasol o dan Amod A6, a'r posibilrwydd o gamymddwyn o dan Amod A8, wrth benderfynu a ddylid defnyddio asesiad o bell a/neu Oruchwylio o bell fel Addasiad. Mae'r ffactorau y dylai corff dyfarnu eu hystyried, fel rhan o'r ystyriaeth honno, yn cynnwys y canlynol –

- a fydd asesu o bell a/neu oruchwylio o bell yn effeithio ar y materion sylfaenol sydd i'w hasesu a dilysrwydd yr asesiad
- profiad defnyddiwr y Dysgwyr a pharamedrau'r cyflwyno, er enghraifft, sut y byddai'r Goruchwyliwr yn goruchwylio unrhyw seibiannau yn ystod asesiad
- lefel y diogelwch sy'n ofynnol wrth gyflwyno yn gymesur â phwysigrwydd y cymhwyster a'i bwrpas
- cadernid prosesau a rheolaethau'r corff dyfarnu i sicrhau y gellir cadarnhau hunaniaeth y Dysgwr ac y gellir Dilysu'r dystiolaeth a gynhyrchir gan y Dysgwr
- gallu'r corff dyfarnu a'r Canolfannau i weithredu'r systemau a'r prosesau perthnasol yn ôl y bwriad, gan gynnwys, er enghraifft, a yw Aseswyr a Goruchwylwyr wedi eu hyfforddi'n ddigonol, a'r gallu i newid maint neu raddfa'r systemau a'r prosesau perthnasol
- yr eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r corff dyfarnu, y Ganolfan a'r Dysgwr
- diogelwch a dibynadwyedd y feddalwedd a'r caledwedd sydd eu hangen i weithredu'r systemau a'r prosesau perthnasol
- cynllun wrth gefn y corff dyfarnu os methir â chyflawni, gan gynnwys os ceir methiant yn y feddalwedd neu'r caledwedd perthnasol

- ymagwedd y corff dyfarnu at faterion cydraddoldeb, gan gynnwys Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig, a'i ddull o ymdrin ag unrhyw Ddysgwyr nad oes ganddynt fynediad at yr offer gofynnol, neu nad yw eu hoffer yn gydnaws â gofynion y system berthnasol
- materion yn ymwneud â diogelu, iechyd a diogelwch, a diogelu data
- unrhyw gamau i dreialu'r dull cyn ei gyflwyno'n llawn

Rhaid i gorff dyfarnu gadw cofnod o'i benderfyniadau a'r cyfiawnhad dros y dull y mae'n dewis ei fabwysiadu ar gyfer Goruchwylio ar-lein fel rhan o'i waith o gadw cofnodion o dan Amod VCR5.

Canllawiau ar benderfynu ar ganlyniadau ar gyfer Cymwysterau Categori B

Mae Amod VCR3.4 yn caniatáu inni nodi gofynion a chanllawiau mewn perthynas â phenderfynu ar ganlyniadau i'w cyhoeddi ar gyfer Cymwysterau Categori B o dan y Fframwaith VCR.

Gwnaethom nodi'r canllawiau isod.

O dan Amod VCR4.1, mewn perthynas â phenderfynu canlyniadau, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r egwyddorion a bennir gan Gymwysterau Cymru. Mae Egwyddor B1 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu gyhoeddi canlyniadau sy'n cwrdd â llinell sylfaen o ran dilysrwydd a dibynadwyedd. Mae Egwyddor B2 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu geisio cynyddu i'r eithaf, ddibynadwyedd y canlyniadau y mae'n eu cyhoeddi.

Paratoi ar gyfer penderfynu ar ganlyniadau a'u cyhoeddi

Po fwyaf gwybodus y mae corff dyfarnu ynghylch y ffordd y mae ei gymwysterau'n cael eu cyflwyno, y mwyaf galluog a fydd o ran rhagweld nifer y canlyniadau y bydd angen eu penderfynu, gan reoli'r broses o gasglu ffynonellau gwybodaeth (er enghraifft Graddau a Asesir gan Athrawon[1]) o Ganolfannau a fydd yn llywio'r canlyniad, ac o gyhoeddi canlyniadau Dilys a Dibynadwy.

Felly, gallai fod yn ddefnyddiol i gyrff dyfarnu ystyried a fydd angen iddynt gymryd camau ychwanegol i:

- ddeall pa gymwysterau sy'n cael eu cynnig gan eu Canolfannau, pa Ddysgwyr sy'n cymryd eu cymwysterau, pryd maen nhw'n disgwyl cymryd asesiadau, a phryd fydd angen iddynt dderbyn canlyniadau;
- deall pryd mae Dysgwyr i fod i gael tystysgrif, a
- deall ymddygiad arferol y ganolfan trwy ddadansoddi patrymau cofrestru hanesyddol.

Categoreiddio cymwysterau

Yn ein gofynion o dan VCR3.4(a) rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu ystyried y canlynol wrth bennu ei ddull o ddyfarnu:

[1] Mae 'Graddau a Asesir gan Athrawon' yr un fath â 'Graddau a Bennir gan y Ganolfan' a ddisgrifir yn y GQAAFW.

- nodweddion y cymhwyster, gan gynnwys diben, defnydd, maint, strwythur a dull cyflwyno,
- y rhesymeg dros ddyfarnu pan nad yw pob asesiad wedi'i gwblhau, megis tarfu ar addysgu a dysgu, a chydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch y cyhoedd, a
- yng ngoleuni'r uchod, i benderfynu wedyn i ba raddau y mae'n angenrheidiol/briodol alinio'r dull o ddyfarnu a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau cyffredinol ('GQs') o dan naill ai Fframwaith GQAAFW neu GQAA.

Cymwysterau sydd fwyaf tebyg i TGAU, UG a Safon Uwch

Ar gyfer y cymwysterau hynny a ddefnyddir i gefnogi dilyniant i astudiaethau pellach neu uwch, sy'n dilyn cylch blwyddyn academaidd (dros 1 neu 2 flynedd), sy'n cael eu haddysgu ochr yn ochr â TGAU, UG a Safon Uwch, neu yn eu lle, ac sy'n cael eu haddysgu yn bennaf mewn ysgolion, rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu ddefnyddio dull tebyg o ddyfarnu i'r un a ddefnyddir ar gyfer GQs, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Mae asesiadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch wedi'u canslo yng Nghymru oherwydd aflonyddwch i addysgu a dysgu a achoswyd gan COVID-19. Yn unol ag Egwyddor B4, rhaid i gyrff dyfarnu geisio sicrhau nad yw Dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau galwedigaethol sydd fwyaf tebyg i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn profi anfantais neu fantais o'u cymharu â'u cyfoedion sy'n cymryd GQs.

Nid ydym yn gwahardd asesiadau ar gyfer Cymhwyster Categori B rhag digwydd lle gall corff dyfarnu barhau i ddarparu a/neu farcio'r asesiadau fel arfer neu ar ffurf wedi'i Addasu. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl na ellir cyflawni hyn ar gyfer y Cymwysterau Categori B hynny sydd fwyaf tebyg i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch.

Rydym yn cydnabod y gallai cymwysterau sy'n rhannu'r nodweddion hyn fod â gwahanol ddulliau a strwythurau asesu ond rydym yn disgwyl, lle bo hynny'n bosibl, bod dyfarniadau'n seiliedig ar Raddau a Asesir gan Athrawon Lefel Cymhwyster yn unol â'r trefniadau a roddwyd ar waith ar gyfer GQs. Ond lle mae cymwysterau sy'n rhannu'r nodweddion hyn yn dilyn strwythur unedol ac na fyddai Gradd a Asesir gan Athrawon ar Lefel Cymhwyster yn arwain at ddyfarniad digon dibynadwy, rydym yn derbyn y gallai Gradd a Asesir gan Athrawon ar Lefel Cydran fod yn briodol.

Mae yna hefyd rai cymwysterau sy'n rhannu'r nodweddion hyn ond sy'n cynnwys rhywfaint o asesiad o sgiliau galwedigaethol, lle na fyddai defnyddio Graddau a Asesir gan Athrawon yn arwain at ddyfarniad diogel a dilys. Lle mae hyn yn wir, rydym yn cydnabod efallai na fydd yn bosibl defnyddio'r un dull yn union o ddyfarnu

â'r dull a roddwyd ar waith ar gyfer GQs ond rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu roi trefniadau ar waith ar gyfer dyfarnu sy'n Hydrin i Ganolfannau.

Ffynonellau gwybodaeth wrth benderfynu at ganlyniad

Mae ein gofynion ar benderfynu ar ganlyniadau yn nodi, ar gyfer pob Cymhwyster Categori B y mae'n ei ddarparu, ac ar gyfer pob Dysgwr sy'n ei gymryd, rhaid i gorff dyfarnu nodi'r ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac a allai fod ar gael mewn perthynas â'r cymhwyster yn ei gyfanrwydd a/neu ar gyfer pob asesiad. Gall y dull a ddefnyddir i benderfynu ar ganlyniad ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth yn unigol neu mewn cyfuniad.

Disgrifir rhai ffynonellau gwybodaeth y gellir eu defnyddio i benderfynu ar ganlyniadau unigol a rhai ffactorau sy'n berthnasol i farnu eu rôl yn Nhabl 1 isod.

Tabl1: Ffynonellau gwybodaeth

	Gwybodaeth	**Tystiolaeth**	**Ystyriaethau**
1.	Gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau mewn perthynas â pherfformiad Dysgwr ar lefel cymhwyster ('Gradd a Asesir gan Athrawon ar Lefel Cymhwyster')	Gall corff dyfarnu ofyn i Ganolfan roi barn am y canlyniad i bob Dysgwr ar lefel cymhwyster. Gall corff dyfarnu hefyd ofyn i Ganolfan sut mae wedi ystyried tyrstiolaeth er mwyn cefnogi'r broses o benderfynu ar ganlyniadau fel: - Sut y defnyddiwyd unrhyw farciau a graddau cydrannau sydd wedi'u bancio[2] - Marciau a graddau asesu mewnol nad ydynt eto yn destun Craffu Safonau Asesu Canolfannau - Asesiadau mewnol wedi'u cwblhau'n rhannol[3] - Asesiadau gwaith dosbarth neu waith cartref - Ffug arholiadau - Asesiadau anffurfiol	Bydd ystyried nodweddion canlynol y cymhwyster yn helpu cyrff dyfarnu i benderfynu a ddylai'r ffynhonnell wybodaeth hon fod yn sail i ganlyniad y cymhwyster. Mae'r nodweddion hyn yn cynnwys: - I ba raddau y mae'n cael ei defnyddio yn lle/ochr yn ochr â GQs - Tebygrwydd pwrpas i GQs - Llinoledd neu fodiwlaidd - Os yw'n fodiwlaidd, faint o farciau a graddau Cydrannau wedi'u bancio sydd ar gael - Maint y cymhwyster

[2] Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'graddau' i gyfeirio at lefelau cyrhaeddiad penodol fel A, B, C, er enghraifft, neu Llwyddo, Teilyngdod a Rhagoriaeth.
[3] Yn y canllawiau hyn, mae 'asesiad mewnol' yn asesiad sy'n cael ei farcio gan Ganolfan ac yna'n destun Cymedroli neu ddilysu gan y corff dyfarnu.

	Gwybodaeth	**Tystiolaeth**	**Ystyriaethau**
2.	Gwybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau mewn perthynas â pherfformiad Dysgwr ar lefel Cydran ('Gradd a Asesir gan Athrawon ar Lefel Cydran')	Gall corff dyfarnu ofyn i Ganolfan roi barn am y canlyniad i bob Dysgwr ar lefel Cydran. Gall corff dyfarnu hefyd ofyn i Ganolfan sut mae wedi ystyried tyrstiolaeth er mwyn cefnogi'r broses o benderfynu ar ganlyniadau fel: - Marciau a graddau asesu mewnol nad ydynt eto yn destun Craffu Safonau Asesu Canolfannau - Asesiadau mewnol wedi'u cwblhau'n rhannol - Asesiadau gwaith dosbarth neu waith cartref - Ffug arholiadau - Asesiadau anffurfiol	Mae Graddau a Asesir gan Athrawon ar Lefel Cydran yn debygol o fod yn ffynhonnell wybodaeth ar gyfer cymwysterau modiwlaidd lle: - Disgwylir i'r dysgwyr gymryd asesiadau unigol ond nid ydynt yn cael tystysgrif - mae cyfran fawr o'r Cydrannau eisoes wedi'u bancio - Mae Graddau a Asesir gan Athrawon ar Lefel Cymhwyster yn amhriodol oherwydd bod rhan o'r asesiad yn tystio i gymhwysedd galwedigaethol a rhaid iddynt barhau

	Gwybodaeth	**Tystiolaeth**	**Ystyriaethau**
3.	Gwybodaeth a gedwir gan y corff dyfarnu - marciau a graddau Cydrannau wedi'u bancio	Marciau a/neu raddau ar gyfer asesiadau wedi'u cwblhau mewn Cydrannau hyd yn hyn. Mae hyn yn cynnwys – - asesiadau allanol,[4] ac - asesiadau mewnol lle mae'r marciau neu raddau wedi bod yn destun prosesau Craffu Safonau Asesu Canolfannau. - ar gyfer ymgeiswyr cymwys, canlyniadau wedi'u cyfrifo o dan Fframwaith VTQCov neu Fframwaith VQCov	Lle mae'r wybodaeth hon yn bodoli, mae'n debygol o fod yn rhan o sail canlyniad y cymhwyster, naill ai fel elfen gyfrannol ochr yn ochr â ffynonellau gwybodaeth eraill, neu fel sail i benderfynu at ganlyniadau, gan gynnwys fel rhan o ddyfarniad y Ganolfan, naill ai ar gyfer Cydrannau coll neu i gefnogi dyfarniad Canolfan i gyflenwi Graddau a Asesir gan Athrawon ar lefel cymhwyster.

[4] Yn y canllawiau hyn, mae 'asesiad allanol' yn cyfeirio at asesiad sydd wedi'i osod a'i farcio gan y corff dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys asesiadau trwy arholiad, profion ysgrifenedig, perfformiadau neu ddeunyddiau ysgrifenedig lle mae'r dasg yn cael ei gosod a'i marcio gan y corff dyfarnu. Mae asesiad trwy arholiad yn asesiad sydd (i) wedi'i osod gan gorff dyfarnu, (ii) wedi'i gynllunio i'w gymryd ar yr un pryd gan yr holl Ddysgwyr perthnasol ar amser a bennir gan y corff dyfarnu, a (iii) a gymerir o dan amodau a bennir gan y corff dyfarnu (gan gynnwys amodau sy'n ymwneud â goruchwylio Dysgwyr yn ystod yr asesiad a hyd yr asesiad).

Pan fo corff dyfarnu yn defnyddio dull unedol o ddyfarnu, mewn achosion lle mae digon o dystiolaeth i benderfynu ar ganlyniad ar gyfer Dysgwr yn gyffredinol, ond lle mae uned heb unrhyw dystiolaeth, dylai'r corff dyfarnu ystyried y dystiolaeth arall sydd ar gael iddo ffurfio dyfarniad mewn perthynas â'r uned honno.

Dylai'r dystiolaeth a ystyrir hefyd gynnwys tystiolaeth gan Athrawon arbenigol a gweithwyr proffesiynol addysgol eraill fel cydgysylltwyr anghenion addysg arbennig (Cydlynwyr AAA) sydd wedi gweithio gyda'r Dysgwr lle bo hynny'n briodol.

Dylai corff dyfarnu geisio sicrhau bod dyfarniad Canolfan mewn perthynas â phob Dysgwr yn cael ei wneud mor hwyr yn y cwrs â phosibl, gyda'r Radd a Asesir gan Athrawon yn cael ei darparu i'r corff dyfarnu gan y Ganolfan erbyn dyddiad sydd wedi'i gyfathrebu'n glir.

Dull cyson

Dylai corff dyfarnu egluro i Ganolfannau ar ba sail y gellir dyfarnu canlyniad i Ddysgwyr gan ddefnyddio Graddau a Asesir gan Athrawon a cheisio datblygu dulliau cyson gyda chyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau tebyg. Mae hyn yn unol ag Egwyddor B4 bod yn rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau nad yw Dysgwyr yn cael mantais neu anfantais yn erbyn eu cyfoedion sy'n cymryd VQs tebyg. Os cytunir ar ddull cyffredin ynghylch sut i benderfynu ar ganlyniad gan ddefnyddio Graddau a Asesir gan Athrawon o fewn math penodol o gymhwyster, pwnc/sector, dylai corff dyfarnu ystyried y dull hwnnw lle bo hynny'n berthnasol, a cheisio cydymffurfio ag ef lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Asesiad mewnol

Disgwyliwn i gorff dyfarnu annog cyfranogiad parhaus mewn dysgu ond rydym yn cydnabod bod yr aflonyddwch a brofir gan Ddysgwyr o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws (COVID-19) yn golygu na all asesiad mewnol barhau fel arfer. Disgwyliwn i gorff dyfarnu gyfarwyddo neu gynghori ei Ganolfannau i barhau ag asesiad mewnol lle mae'n ddefnyddiol ffurfio sylfaen dystiolaeth ar gyfer Graddau a Asesir gan Athrawon neu lle mae angen i'r corff dyfarnu ei ddefnyddio fel sail i benderfynu ar ganlyniad.

Pan fydd asesiad mewnol yn parhau, dylai cyrff dyfarnu sicrhau nad yw eu cyfarwyddiadau i Ganolfannau yn tarfu ar arfer da wrth addysgu a dysgu a darparu adborth i Ddysgwyr am eu cynnydd a'u perfformiad.

Lle mae Dysgwr wedi bancio canlyniadau Cydrannau y gallai'r corff dyfarnu benderfynu canlyniad arnynt, gall serch hynny ddewis penderfynu ar y canlyniad hwnnw trwy ddefnyddio dulliau eraill (er enghraifft, Gradd a Asesir gan Athrawon) lle byddai hyn yn arwain at ganlyniad mwy Dilys a Dibynadwy.

Dysgwyr a gymerodd neu a oedd yn disgwyl cymryd asesiadau ym mis Ionawr 2021

Lle cymerodd Dysgwyr neu lle'r oedd Dysgwyr yn disgwyl cymryd asesiadau ym mis Ionawr 2021, rydym wedi gofyn i gorff dyfarnu alluogi:

- dysgwyr nad oeddynt ar fin ennill tystysgrifau a oedd yn absennol o asesiadau mis Ionawr i fod yn gymwys i gael canlyniad trwy ddefnyddio dulliau eraill (er enghraifft, Graddau a Asesir gan Athrawon), a
- dysgwyr nad oeddynt ar fin ennill tystysgrifau a gymerodd yr asesiadau, ond a ganfu fod gorfod cymryd yr asesiadau hynny yng nghyd-destun yr aflonyddwch ym mis Ionawr wedi cael effaith andwyol ar eu gallu i ddangos lefel eu cyrhaeddiad, i fod yn gymwys hefyd i gael canlyniad trwy ddefnyddio dulliau eraill (er enghraifft, Graddau a Asesir gan Athrawon).

Gall corff dyfarnu ddewis rhoi'r un trefniadau ar waith ar gyfer Dysgwyr a oedd ar fin ennill tystysgrifau a gymerodd asesiadau ym mis Ionawr 2021 ond nad ydynt yn gymwys i dderbyn canlyniad trwy gymhwyso Ystyriaeth Arbennig.

Cymwysterau Categori B a ddefnyddir i gefnogi dilyniant i astudiaeth bellach neu uwch ond nad oes ganddynt yr un nodweddion â chymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch ac nad ydynt yn cael eu cyflwyno yn yr un ffordd

Ar gyfer y Cymwysterau Categori B hynny:

- nad oes raid iddynt ddilyn cylch academaidd,
- sy'n gymwysterau 'llai' (Oriau Dysgu dan Arweiniad isel),
- lle mae Dysgwyr yn cymryd asesiadau pan fyddant yn barod ac nid ar bwyntiau penodol yn ystod y flwyddyn academaidd,
- sydd nid yn unig yn cael eu haddysgu mewn ysgolion a cholegau, a/neu
- nad ydynt yn cynnwys unrhyw asesiad o sgiliau galwedigaethol ond a allai fod yn asesu rhyw elfen o hyfedredd,

rydym yn disgwyl i gorff dyfarnu barhau i sicrhau bod asesiadau ar gael i Ddysgwyr lle bo hynny'n bosibl.

Lle mae Dysgwyr yn barod i gymryd asesiad oherwydd bod yr holl addysgu a dysgu wedi'i gwblhau, ac yn gallu gwneud hynny'n ddiogel, o bell neu'n bersonol, dylai corff dyfarnu eu galluogi i wneud hynny.

Fodd bynnag, lle mae Dysgwyr yn barod i gymryd asesiad ar gyfer cymhwyster o'r fath ond yn methu â gwneud hynny oherwydd arweiniad iechyd a diogelwch y cyhoedd, dylai corff dyfarnu roi trefniadau eraill ar waith ar gyfer dyfarnu, a allai gynnwys defnyddio Graddau a Asesir gan Athrawon.

Dull cyson

Dylai corff dyfarnu egluro i Ganolfannau ar ba sail y gallai Dysgwyr fod yn gymwys i gael mynediad at drefniadau amgen ar gyfer dyfarnu (er enghraifft, Graddau a Asesir gan Athrawon), a cheisio datblygu dulliau cyson o fonitro cymhwysedd gyda chyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau tebyg. Mae hyn yn unol ag Egwyddorion B3 B4 bod yn rhaid i gorff dyfarnu geisio sicrhau nad yw Dysgwyr yn cael mantais neu anfantais yn erbyn eu cyfoedion sy'n cymryd VQs neu GQs tebyg.

Os cytunir ar ddull cyffredin ynghylch sut i benderfynu ar ganlyniad gan ddefnyddio Graddau a Asesir gan Athrawon o fewn math penodol o gymhwyster, pwnc/sector, dylai corff dyfarnu ystyried y dull hwnnw lle bo hynny'n berthnasol, a cheisio cydymffurfio ag ef lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Sicrhau ansawdd mewnol ac allanol

Wrth benderfynu sut, ac i ba raddau y gellir defnyddio data hanesyddol y Ganolfan fel rhan o broses sicrhau ansawdd Canolfan neu gorff dyfarnu, dylai corff dyfarnu ystyried:

- Amserlen berthnasol y gellir gwneud cymariaethau hanesyddol yn ei herbyn o fewn cymhwyster, yn enwedig lle mae Dysgwyr wedi derbyn ac yn derbyn canlyniadau ar sail dreigl, a
- Lle, ar gyfer yr un cymhwyster, mae gan Ganolfannau Ddysgwyr sy'n derbyn Gradd a Asesir gan Athrawon a Dysgwyr sy'n cymryd asesiadau yn ôl yr arfer neu gydag addasiadau.

Cyfraith Diogelu Data

Wrth benderfynu pa ddulliau i'w defnyddio i benderfynu ar ganlyniad ar gyfer Cymhwyster Categori B sydd ar gael ganddo, dylai corff dyfarnu gofio ei rwymedigaethau o dan Gyfraith Diogelu Data. Bydd Cyfraith Diogelu Data yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â VQs y cyhoeddir canlyniadau ar eu cyfer o dan y Fframwaith VCR.

Ymgysylltiad canolfan â Dysgwyr sy'n derbyn Graddau a Asesir gan Athrawon

Yn ei ganllawiau i Ganolfannau, dylai corff dyfarnu annog addysgu a dysgu i barhau cyhyd ag y bo modd, i gwmpasu cymaint â phosibl o gynnwys y cymhwyster, lle mae canlyniad Dysgwyr i'w bennu ar sail y wybodaeth a ddarperir ar ffurf Gradd a Asesir gan Athro. Felly, ni ddylid atal Canolfan rhag marcio a rhoi adborth i Ddysgwyr ar waith a gwblhawyd, hyd yn oed lle gallai hyn fod yn rhan o Radd a Asesir gan Athrawon. Dylai corff dyfarnu annog ei Ganolfannau i drafod gyda'r Dysgwyr y dystiolaeth a ddefnyddir i bennu Graddau a Asesir gan Athrawon.

Dysgwyr nad ydynt ar fin ennill tystysgrif

Mae Amod VCR3.1 yn darparu bod yn rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi canlyniad i bob Dysgwr a oedd naill ai wedi cofrestru neu sydd wedi cofrestru i gymryd, rhwng 1 Awst 2020 a 31 Awst 2021, asesiad a fyddai wedi arwain at gyhoeddi canlyniad, neu y gallai corff dyfarnu ddisgwyl yn rhesymol ei fod wedi'i gofrestru felly. Mae hyn yn cynnwys Dysgwyr nad ydynt ar fin ennill tystysgrif ac rydym yn disgwyl i gorff dyfarnu ystyried sut y gellir sicrhau bod canlyniadau ar gael i'r Dysgwyr hynny.

Ar gyfer Dysgwyr nad ydynt yn disgwyl ennill tystysgrif cyn 31 Awst 2021, dylai corff dyfarnu ystyried y ffactorau canlynol wrth benderfynu pryd a sut i gyhoeddi canlyniadau i'r Dysgwyr hyn:

- tegwch i'r Dysgwyr hynny a'u gallu i symud ymlaen,
- digonolrwydd tystiolaeth i seilio dyfarniad dilys arni,
- hydrinedd i Ganolfannau, ac
- ansicrwydd ynghylch datblygiad pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Gwiriadau a datganiadau Pennaeth y Ganolfan

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu ddarparu arweiniad i Ganolfannau ynghylch prosesau sicrhau ansawdd mewnol a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod gan Ganolfan drefniadau effeithiol ar waith, a'i bod yn cydymffurfio â nhw, i sicrhau ansawdd ei Graddau a Asesir gan Athrawon cyn eu cyflwyno i'r corff dyfarnu.

Yn benodol, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu sicrhau bod gwiriad ar y Radd a Asesir gan Athrawon yn cael ei gynnal gan y pennaeth adran perthnasol neu gyfwerth neu, lle nad oes unrhyw berson mewn rôl o'r fath, pennaeth y Ganolfan neu gyfwerth.

Er mwyn cydymffurfio ag Amod A4, dylai arweiniad corff dyfarnu i Ganolfannau dynnu sylw Canolfannau at yr angen i ystyried rhoi rheolaethau ychwanegol ar waith lle gallai fod gan aelod o staff fuddiant personol mewn Dysgwr (er enghraifft fel perthynas).

Efallai y bydd corff dyfarnu yn ei gwneud yn ofynnol i Ganolfan ddarparu datganiad pennaeth Canolfan a chaiff nodi'r ffurf y gall ei chymryd.

Safonau yn 2021

Ar gyfer rhai Cymwysterau Categori B, bydd cyrff dyfarnu yn ei gwneud yn ofynnol i bob Canolfan gyflwyno Gradd a Asesir gan Athrawon ar gyfer pob Dysgwr, yn seiliedig ar asesiad o'r safon y maent yn perfformio arni. Dylai'r dyfarniad proffesiynol hwn ddeillio o ystod o dystiolaeth briodol.

Dylai corff dyfarnu ei gwneud yn glir i'w Ganolfannau y dylai Canolfan, wrth ystyried perfformiad Dysgwr yng nghyd-destun Gradd a Asesir gan Athrawon, wneud y canlynol:

- Ystyried arweiniad y corff dyfarnu ar y dystiolaeth sy'n sail i Radd a Asesir gan Athrawon, mewn perthynas â'r cymhwyster;
- Ystyried perfformiad pob Dysgwr a llunio barn realistig ar safon y gwaith hwnnw. Bydd gan ganolfannau ddealltwriaeth dda o berfformiad eu Dysgwyr a sut mae'n cymharu â Dysgwyr eraill o fewn y cymhwyster/Cydran eleni, ac mewn blynyddoedd blaenorol.
- Wrth ddod i'r dyfarniad hwn:
    - ar gyfer y cymwysterau hynny sydd fwyaf tebyg i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, dylai Canolfannau sicrhau bod Dysgwyr wedi astudio cynnwys digonol i fod yn sail i ganlyniad, ond dylent gofio efallai nad oedd Dysgwyr wedi cael eu haddysgu ar gyfer yr holl gwrs astudio yn 2021 felly efallai na fyddant yn dangos ystod mor eang o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth â'r hyn a ddisgwylir ar gyfer gwaith a aseswyd.
    - ar gyfer cymwysterau eraill yng Nghategori B lle mae rhai asesiadau'n parhau ond mae rhai Dysgwyr yn derbyn canlyniad trwy drefniadau eraill (er enghraifft, Graddau a Asesir gan Athrawon), dylid disgwyl bod Dysgwyr wedi cael eu haddysgu yn y cwrs astudio i gyd ac y dylent ddangos yr ystod o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n debyg i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer gwaith a aseswyd.

- Deall pwysigrwydd bod dyfarniadau yn wrthrychol, a dim ond ystyried tystiolaeth sy'n berthnasol i berfformiad Dysgwr er mwyn sicrhau fod Gradd a Asesir gan Athrawon pob Dysgwr yn cael ei phenderfynu ar sail perfformiad penodol y myfyriwr hwnnw mewn perthynas â'r cymhwyster perthnasol.

Lle mae Graddau a Asesir gan Athrawon yn cael eu defnyddio i benderfynu ar ganlyniadau, byddwn yn disgwyl i gorff dyfarnu ystyried a defnyddio canllawiau priodol, gan gynnwys, fel y bo'n berthnasol, 'Canllawiau am drefniadau amgen ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch' Cymwysterau Cymru, a 'Gwybodaeth i ganolfannau ynghylch llunio barn wrthrychol' Ofqual.

Ymgeiswyr Preifat

Mae Amod VCR3.1 yn darparu bod yn rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi canlyniad i bob Dysgwr a oedd naill ai wedi cofrestru neu sydd wedi cofrestru i gymryd, rhwng 1 Awst 2020 a 31 Awst 2021, asesiad a fyddai wedi arwain at gyhoeddi canlyniad, neu y gallai corff dyfarnu ddisgwyl yn rhesymol ei fod wedi'i gofrestru felly. Mae hyn yn cynnwys Ymgeiswyr Preifat ac rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu ystyried sut y gall y Dysgwyr hynny gael mynediad at ganlyniad.

Diwrnodau canlyniadau

Bydd dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn derbyn eu canlyniadau ar 10 a 12 Awst 2021, yn y drefn honno. Byddwn yn disgwyl i gorff dyfarnu ystyried a yw cydymffurfio ag Egwyddor B4 yn ei gwneud yn ofynnol iddo newid ei amserlen gyhoeddedig ar gyfer canlyniadau o dan Amod H6.1(e) i gyhoeddi canlyniadau ar gyfer cymwysterau Categori B sy'n gysylltiedig â symud ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch hefyd a'i chyflwyno hefyd i Ddysgwyr ar neu cyn y dyddiadau hyn.

Pan fydd corff dyfarnu yn ystyried y dyddiad olaf y dylai fod wedi derbyn ffynonellau gwybodaeth gan ei Ganolfannau, dylai ystyried:

- amserlenni ar gyfer cyhoeddi canlyniadau,
- hydrinedd i Ganolfannau, ac
- amserlenni ar gyfer trefniadau sicrhau ansawdd.

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod A6 mewn perthynas â VQs ac Amod VCR3.1(a)(ii)

O dan Amod VCR3.1(a)(ii), mae'n ofynnol i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i gyhoeddi canlyniad i Ddysgwr y byddai wedi disgwyl yn rhesymol iddo fod wedi'i gofrestru i gymryd asesiad rhwng 1 Awst 2020 a 31 Awst 2021 ar gyfer Cymhwyster Categori B y mae yn ei gynnig.

Y bwriad yw, fel rhan o'r Dysgwyr a ddaliwyd, y bydd hyn yn cynnwys y rhai –

- sydd efallai wedi'u dadgofrestru yn dilyn penderfyniad corff dyfarnu na fyddai asesiad yn mynd yn ei flaen,
- sydd wedi'u cofrestru ar gyfer y cymhwyster ond nid ar gyfer yr asesiadau nad ydynt efallai wedi mynd yn eu blaenau, neu na fyddant efallai yn mynd yn eu blaenau, neu
- a oedd, cyn cau Canolfannau, yn astudio ar gyfer y cymhwyster mewn Canolfan ac i fod i gymryd asesiad ar ei gyfer ar neu ar ôl 6 Ionawr 2021, ond nad oeddent wedi'u cofrestru gyda'r corff dyfarnu

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y gofyniad hwn yn arwain at y potensial i gael ei gam-ddefnyddio.

Bydd Amod A6 yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â VQs, er y bydd angen i gorff dyfarnu ystyried y proffil risg sydd wedi newid mewn perthynas â'r VQs y mae'n ei ddarparu. Fel rhan o'i ystyriaeth o'r proffil risg newidiol o dan Amod A6, dylai corff dyfarnu drin y potensial i gam-ddefnyddio Amod VCR3.1(a)(ii) fel risg a allai arwain at Effaith Niweidiol.

Daeth cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch cyfnod clo, cau Canolfannau, a hyfywedd asesiadau cyn y gallai llawer o Ddysgwyr fod wedi cofrestru ar gyfer asesiadau yn 2021. Fel rhan o'r camau rhesymol y mae'n eu cymryd o dan Amod A6.2, byddwn yn disgwyl i gorff dyfarnu fonitro –

- cofrestriadau i nodi unrhyw batrymau cofrestru anarferol ac i sicrhau bod rheswm dilys dros unrhyw gynnydd yng nghofrestriadau Canolfan neu nad yw'r broses yn cael ei cham-ddefnyddio mewn unrhyw ffordd arall, a
- risgiau sy'n codi pan gyhoeddir canlyniadau o fewn yr un cymhwyster ar sail asesiadau sy'n digwydd fel arfer, canlyniadau a benderfynir o dan Amod VCR3, a/neu asesiadau wedi'u Haddasu.

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod A8 (Camymddwyn a chamweinyddu) mewn perthynas â VQs

O dan Amod Safonol A8, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i atal camymddwyn neu gamweinyddu wrth ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu ei gymwysterau.

Mae Amod A8 yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â chanlyniadau a gyhoeddir o dan yr Amodau VCR, er y bydd angen i gorff dyfarnu ystyried y proffil risg sydd wedi newid mewn perthynas â'r VQs y mae'n ei ddarparu. O'r herwydd, rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i atal camymddwyn neu gamweinyddu a allai ddigwydd mewn perthynas â:

(a) canlyniadau yn seiliedig ar asesiadau wedi'u Haddasu, a

(b) canlyniadau yn seiliedig ar ddulliau eraill,

a gyhoeddwyd o dan Amodau VCR.

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod D2 (Hygyrchedd cymwysterau) mewn perthynas â VQs

O dan Amod D2, rhaid i gorff dyfarnu sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Gyfraith Cydraddoldeb mewn perthynas â phob un o'r cymwysterau y mae'n eu darparu. Bydd Cyfraith Cydraddoldeb yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â VQs sydd wedi'u Haddasu o dan Amod VCR2.1(b) neu Amod VCR3.5.

Yn unol ag Amodau Safonol D2.2 a D2.3, rhaid i gorff dyfarnu barhau i fonitro unrhyw anfanteision i grwpiau o Ddysgwyr sy'n rhannu Nodweddion penodol mewn perthynas â VQ wedi'i Addasu y mae'n ei ddarparu, a dileu unrhyw anfantais lle na ellir ei gyfiawnhau.

O dan Amod D2.3(b), rhaid i gorff dyfarnu hefyd gadw cofnod o unrhyw anfantais y mae'n credu y gellir ei chyfiawnhau.

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod G7 (Trefniadau ar gyfer Ystyriaeth Arbennig) mewn perthynas â VQs

O dan Amod Safonol G7, mae'n ofynnol i gyrff dyfarnu roi Ystyriaeth Arbennig i Ddysgwr sydd wedi profi salwch neu anaf dros dro, neu ryw ddigwyddiad arall y tu hwnt i'w reolaeth. Rhaid bod gan gorff dyfarnu drefniadau clir ar waith ar gyfer Ystyriaeth Arbennig a rhaid iddo gyhoeddi manylion amdanynt. Dylai corff dyfarnu adolygu'r trefniadau hynny i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol yng nghyd-destun yr aflonyddwch a achosir gan bandemig coronafeirws (COVID-19).

O dan y Fframwaith VCR, gellir cynnal asesiadau ar gyfer Cymwysterau Categori A naill ai fel arfer neu ar ffurf wedi'i Addasu. Ar gyfer Cymwysterau Categori B, gellir cynnal asesiadau mor normal ag y caniateir o dan Amod VCR3.6 a'r gofynion a nodir o dan Amod VCR3.4(a).

Mewn perthynas â VQs y mae asesiadau i'w cynnal ar eu cyfer, lle yr amharir ar gymwysterau ac asesiadau o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws (COVID-19) - gan gynnwys, er enghraifft, lle mae cyfnod clo cenedlaethol neu leol yn effeithio ar gyfle asesu - yn unol â'r canllawiau ar Amod G7 dylai corff dyfarnu:

- ystyried a all Addasu, neu Addasu ymhellach, ei gymwysterau neu asesiad (lle caniateir hynny) yn y lle cyntaf cyn ystyried a fydd Ystyriaethau Arbennig yn berthnasol. Er enghraifft, dylai benderfynu a oes cyfleoedd asesu amgen ar gael os yw Dysgwr wedi gorfod colli cyfle am resymau sy'n gysylltiedig â'r pandemig coronafeirws (COVID-19) sydd y tu hwnt i'w reolaeth ef neu hi. Lle mae Dysgwr wedi colli addysgu a dysgu o ganlyniad i ganllawiau iechyd cyhoeddus, dylid ystyried Addasiadau i gymwysterau ac asesiadau, yn hytrach nag Ystyriaeth Arbennig;
- Sicrhau, lle mae Ystyriaeth Arbennig ar gael i Ddysgwyr nad ydynt wedi cwblhau'r holl asesiadau (oherwydd cloeon blaenorol neu yn y dyfodol, er enghraifft), bod Canolfannau a Dysgwyr yn glir ynghylch faint o dystiolaeth asesu y mae'n rhaid i Ddysgwr fod wedi'i chwblhau cyn y gellir dyfarnu cymhwyster.

Canllawiau ar Amod H2 (Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau lle mae asesiad yn cael ei farcio gan Ganolfan)

Pan fydd asesiadau'n parhau ar gyfer Cymwysterau Categori A neu Gymwysterau Categori B, dylai corff dyfarnu gydymffurfio ag Amod H2 (Craffu ar Safonau Asesu Canolfannau). Fodd bynnag, gall corff dyfarnu wneud Addasiadau i'w ddull gweithredu os yw hyn yn angenrheidiol yng nghyd-destun aflonyddwch parhaus sy'n deillio o'r pandemig coronafeirws (COVID-19) a'r angen i gydymffurfio â chanllawiau iechyd cyhoeddus.

Ni fydd Amod H2 yn berthnasol i'r dyfarniadau a wneir gan Ganolfan i benderfynu ar Radd a Asesir gan Athrawon ar gyfer Cymhwyster Categori B. Rydym wedi gosod gofynion ar wahân mewn perthynas â'r broses sicrhau ansawdd mewnol ac allanol y mae'n rhaid ei rhoi ar waith ar gyfer Graddau a Asesir gan Athrawon. Gall corff dyfarnu benderfynu pa ddull o sicrhau ansawdd allanol sydd fwyaf priodol yng ngoleuni'r trothwy isaf ar gyfer tystiolaeth a'r dull o benderfynu ar ganlyniadau ar gyfer y cymhwyster hwnnw. Gall hyn olygu nad yw'n dilyn ei brosesau craffu arferol ar Safonau Asesu Canolfannau.

Canllawiau ar gydymffurfio ag Amod I1 (y broses Apelio) mewn perthynas â VQs

O dan Amod I1, rhaid i gorff dyfarnu sefydlu, cynnal a chydymffurfio â phroses apelio mewn perthynas â'i holl gymwysterau. Mae'r rhwymedigaeth hon yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â chanlyniadau a gyhoeddwyd o dan Amodau VCR.

Mae Amod I1 yn caniatáu i gorff dyfarnu strwythuro ei broses apelio fel y mae'n ystyried orau, ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r gofynion sylfaenol a nodir yn yr amod.

Sail apêl ar gyfer Cymwysterau Categori B

Dylai corff dyfarnu ystyried a fydd angen iddo addasu ei broses apelio arferol i ddarparu ar gyfer y canlyniadau y mae'n eu cyhoeddi o dan Amod VCR3.1. Er enghraifft, po agosaf yw'r dull a ddefnyddir gan gorff dyfarnu i benderfynu ar ganlyniadau i'r dull a ddefnyddir ar gyfer cymwysterau cyffredinol, y mwyaf y gall ei ystyried yn briodol dilyn proses apelio debyg i'r un a nodir naill ai yn y Fframwaith GQAAFW neu'r Fframwaith GQAA.

Byddwn yn disgwyl i gorff dyfarnu sicrhau bod gan Ddysgwyr y dyfernir eu cymwysterau mewn ffordd debyg i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch fynediad at hawl i apelio ar yr un sail â'r rhai a nodir ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol. Nodwn y gallai fod angen i union natur y broses fod yn wahanol i gydnabod natur wahanol y cymwysterau.

Fel sy'n ofynnol o dan Amod I1.2(a), byddwn yn disgwyl i gorff dyfarnu ddarparu ar gyfer apeliadau ar y sail ei fod wedi defnyddio gwybodaeth anghywir neu na ddilynwyd gweithdrefnau yn iawn ac yn deg wrth benderfynu ar ganlyniad.

Bydd Amod I1.2 (a) yn cwmpasu a yw Canolfan wedi dilyn gweithdrefn yn iawn ac yn deg, lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys unrhyw fater mewn perthynas â thuedd neu wahaniaethu ar ran Canolfan wrth ddilyn gweithdrefn sy'n ymwneud â darparu Gradd a Asesir gan Athro, er enghraifft.

Ymgeiswyr Preifat

Byddwn yn disgwyl i gorff dyfarnu ddarparu hawl uniongyrchol i apelio ar gyfer Ymgeiswyr Preifat mewn perthynas â'r holl ganlyniadau a gyhoeddir o dan Amodau VCR ar gyfer Cymwysterau Categori A a Chymwysterau Categori B, heb yr angen i Ganolfan ddod ag apêl ar ran yr Ymgeisydd Preifat.

Canllawiau ar Amod VCR8.2

O dan Amod VCR8.2, nid yw'n ofynnol i gorff dyfarnu ddarparu cyfle asesu ar gyfer Cymhwyster Categori B rhwng 1 Medi 2021 a 31 Ionawr 2022 fel sy'n ofynnol o dan Amod VCR8.1(b) lle mae'n ystyried yn rhesymol y byddai gwneud hynny'n anymarferol neu'n anghymesur.

Mae enghreifftiau lle y gallai fod yn anymarferol neu'n anghymesur cynnal cyfres asesu o'r fath yn cynnwys –

(a) lle nad oes digon o gapasiti i gynnal yr asesiadau perthnasol, er enghraifft lle mae'r asesiadau perthnasol yn fawr ac y byddent yn afresymol o ddwys o ran adnoddau i'r corff dyfarnu eu cyflawni,

(b) lle byddai'r asesiadau yn rhy anodd i Ganolfannau eu cyflawni,

(c) lle nad oes digon o amser addysgu i Ddysgwyr fod yn barod i gymryd asesiadau,

(d) lle nad yw Canolfannau ar agor, neu

(e) lle mae angen recriwtio llawer mwy o Aseswyr nag arfer a bod rhwystrau sylweddol i'w recriwtio a'u hyfforddi o fewn amserlen ymarferol.